# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*“Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro”*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o’r Cygor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 28 Mawrth 2019**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen

**Cyngor Gwynedd**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam

1. **Croesawyd** pawb i’r  Cyfarfod gan y Cyng. Neville Hughes.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Einir Williams a Dyfrig Jones.

2. **PCSO Iwan Owen, Heddlu Gogledd Cymru**

Cafwyd sgwrs yn trafod sefyllfa PCSO’s drwy Gwynedd, gyda ond 12 rŵan yng ngogledd Gwynedd i’w gymharu gyda 28 pum mlynedd yn ôl, a hefyd ffigyrau troseddu Dyffryn Ogwen dros y dair mlynedd diwethaf.
Diolchwyd i Iwan am ei waith ac am ddod i’r cyfarfod.

**3. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Griff Morris a Neville Hughes

**4. Materion Brys**
**4.1 Bysiau–** adroddwyd bod y gwasanaeth dydd Sul yn parhau.  Arriva wedi terfynu’r gwasanaeth, ond cwmni lleol am ei gymryd drosodd.  Cyhoeddiad pellach i ddilyn gan Gyngor Gwynedd.
**4.2 Baneri –** sydd wedi eu gosod yn Brynbella.  Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd am y cwmnïau o Fangor sy’n gosod baneri ar y ffens.

**5. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2019.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**6.1 Offer cae chwarae –** Penderfynwyd symud ymlaen gyda hyn a trefnu cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd i drafod ein syniadau. Yn dilyn y cyfarfod gyda swyddog Cyngor Gwynedd, mae angen dyfynbrisiau pellach ar gyfer llawr a gwaith ffensio.
**6.2 Swyddfa Archwilio Cymru –** angen ymateb i'r adroddiad. Y Pwyllgor Cyllid a'r Cyngr. Griff Morris a Dyfrig Jones wedi cyfarfod i lunio'r ymateb. Penderfynwyd defnyddio Gwasanaeth Archwilio Mewnol gan Cyngor Gwynedd o hyn ymlaen.
**6.3 Swyddfa Bost –** mae'r Cyngor ar ddeall bod Londis wedi mynegi eu diddordeb yn lleoli'r gwasanaeth yn y siop.
**6.4 Caeau chwarae** – swyddog Cyngor Gwynedd yn hapus, mewn egwyddor i'r Cyngor Cymuned fod yn gwneud gwaith torri gwair a rhoi llinellau ar y caeau chwarae pêl-droed. Bydd angen arwyddo 'Memorandwm Dealltwriaeth ynglŷn a Gwasanaeth Cynnal Tir'.
**6.5 Cyngerdd Gŵyl Dewi** – y Cyngor yn fodlon cyfrannu tuag at y digwyddiad. Enillydd y ffenestr orau oedd Siop Ogwen.

**7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth. Penderfynwyd derbyn a diolch yr adroddiad.

**8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Hyfforddiant – noson wedi ei ohurio.
Digwyddiad 'Cymunedau Mentrus yn ysbrydoli' – wedi ei drefnu gan Bartneriaeth Ogwen yn Neuadd Ogwen 8fed o Fawrth 2019. Digwyddiad gwych. Y sylwadau a dderbyniwyd oedd bod angen fwy o farchnata a cyhoeddusrwydd.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Penderfynwyd yn unfrydol bod Cyngor Cymuned Bethesda am wneud cais i Lywodraeth Cymru am yr hawl i wneud cais i'r Public Works Loan Board am fenthyciad i adeiladu maes parcio Gerlan. Adroddwyd bod astudiaeth topograffeg wedi ei wneud, ond bod dal yn disgwyl am y cais Adran 23 gyda'r cwlfert.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2019'
**10.1** Llythyr gan Menter Iaith Dyffryn Ogwen – arwydd 'Bluebell Walk' ar yr A5 ym Mharc Moch, Bethesda – yr aelodau yn cefnogi sylwadau'r Menter Iaith.
**10.2** Llythyr gan Partneriaeth Ogwen – Argyfwng Newid Hinsawdd. Y Cyngor yn cefnogi ac am ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd.
**10.3** E-bost gan y Cyng. Mike Parry ynglŷn a bwriad Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i ganoli holl wasanaeth fasgiwlar brys yn Ysbyty Glan Clwyd, yn lle yr uned penigamp enwog a llwyddiannus sydd yn bodoli ym Mangor eisioes. Y Cyngor yn cefnogi'r sylwadau.
**10.4** – Llythyr gan CND ynglŷn a claddu gwastraff niwclar yng Nghymru. Y Cyngor yn erbyn claddu gwastraff niwclar yng Nghymru.
**10.5** Llythyr gan Clwb Pêl-droed Bethesda – cais am gymorth ariannol tuag at brosiect i wella'r cyfleusterau. Y Cyngor am roi rhodd o £500.
**10.6** E-bost gan Eisteddfod genedlaethol yr Urdd – cais am rodd. Penderfynwyd cyfrannu £50.
**10.7** E-bost gan Aled Owen, Llwybr Llechi Eryri – angen cadarnhau pa leoliad i roi'r tryc. Tu allan i'r safle, wrth y dyn utgorn yw'r lleoliad a ddewiswyd.
**10.8** E-bost gan Menter Iaith Dyffryn Ogwen ynglŷn a busnesau ar safle Llys y Gwynt. Y Cyngor am gefnogi'r sylwadau.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C18/1178/13/LL** | |
| Llangoed, Nant Graen, Braichmelyn | Dymchwel y lolfa bresennol a chodi estyniad newydd yn ei le<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |
| **C18/1159/13/AM** | |
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |
| **C19/0140/13/LL** | |
| 3 Ciltrefnus, Gerlan | Estyniad unllawr ar y talcen<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |
| **Cais trwydded** | |
| Clwb Rygbi Bethesda | **Penderfyniad:** Caniatawyd. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C19/0008/13/LL** | |
| Church of Saint Pius X and Blessed Richard Gwyn, Bethesda | Newid defnydd cyn Eglwys Gatholig yn uned fechan ar gyfer diwydiant ysgafn ar gyfer cynhyrchu caws arbenigol gyda llaw<br>**Penderfyniad:** Cefnogi, falch o weld busnes lleol yn cael defnydd o'r adeilad gwag. |

**12. Taliadau**
<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Mawrth) | £271.50 |
| CThEM (Mawrth) | £67.80 |
| EOG-ffenestri Gorffwysfan | £7.00 |
| Partneriaeth Ogwen – Swyddog Cynnal | £3101.28 |
| Partneriaeth Ogwen- hyfforddiant | £35.00 |
| Partneriaeth Ogwen - cyfraniad llyfrgell | £2083.19 |
| A Williams – mins peis | £15.00 |